| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Cymhorthydd Gwasanaethau Plant |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) |
| Yn atebol i’r | Rheolwr Tîm, Maethu |
| Lleoliad | Swyddfeydd y Sir, Fflint |

**Pwrpas y Swydd**

Bydd deiliad y swydd yn darparu cefnogaeth i Ofalwyr Unigolion Cysylltiedig a Gofalwyr Maeth.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaethau Cymdeithasol ac Asiantaethau Partner er mwyn cyflawni ystod lawn o gefnogaeth.

**Prif Gyfrifoldebau**

Darparu cefnogaeth i Ofalwyr Unigolion Cysylltiedig / Gofalwyr Maeth fel rhan o Dîm.

Cynorthwyo a chynghori Gofalwyr Unigolion Cysylltiedig / Gofalwyr Maeth i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a’u tasgau yn unol â chynlluniau ac asesiadau cytunedig.

Datblygu a chynnal perthnasau gyda Gofalwyr Unigolion Cysylltiedig / Gofalwyr Maeth a chynnal ymweliadau cartref angenrheidiol a chefnogaeth dros y ffôn.

Cynllunio a hwyluso cyfarfodydd grŵp cefnogi. Cyd-hwyluso hyfforddiant cyn ac ar ôl asesu.

Cynnal a diweddaru’r holl gofnodion electronig a’r holl ddogfennau perthnasol eraill.

Cadw at y canllawiau a’r rheoliadau a nodir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dilyn canllawiau arfer orau a pholisïau a gweithdrefnau’r Cyngor Sir, cadw at safonau iechyd a diogelwch y gweithle a chynnal lefel uchel o gywirdeb a chyfrinachedd bob amser.

Unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i’w gilydd er mwyn cynnal neu wella ansawdd y gofal i Blant sy’n Derbyn Gofal.

**Goruchwylio/Rheoli Pobl**

Goruchwylio Gofalwyr Maeth a Gofalwyr Unigolion Cysylltiedig.

**Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Bydd angen i ddeiliad y swydd gael gwiriad uwch y GDG.

| Manylion am yr Unigolyn | | |
|---|---|---|
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol/ Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| O leiaf pedwar TGAU (neu gyfwerth) gradd A-C, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Addysg at NVQ Lefel 3 mewn disgyblaeth berthnasol. | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Dealltwriaeth o'r fframwaith Rheoleiddio a Chyfreithiol sy'n sail i hanfod y gwasanaeth. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau statudol eraill. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o waith gyda phlant / pobl ifanc a theuluoedd. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu sefydlu a chynnal perthnasau. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Dealltwriaeth o effeithiau amhariad ym mywyd plentyn. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Asesiad |
| Gallu dangos sgiliau cyfathrebu da gyda'r grŵp gofal hwn. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Asesiad |
| Gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun i fodloni terfynau amser adrannol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog (yn ysgrifenedig ac ar lafar), gyda'r gallu i gynnal perthnasoedd da gyda phobl ar bob lefel o fewn y sefydliad. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio'n annibynnol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |